**Cynllun Gweithredu Cyngor Sir Ddinbych (Ac eithrio'r Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid*)**
**Dyddiad Archwilio: 15 – 19 Gorffennaf 2013**
**Dyddiad yr Ymweliad Dilynol: 25 – 26 Ionawr 2017**
(*) Nid yw'r camau gweithredu sy'n codi o'r archwiliad mewn perthynas â bwyd anifeiliaid wedi'u cynnwys. Cyflwynwyd model cyflawni bwyd anifeiliaid rhanbarthol newydd yng Nghymru o fis Ebrill 2015.

Allwedd Statws

| Lliw | Statws |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd Da |
| Melyn | Ychydig o Gynnydd |
| Coch | Dim Cynnydd |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.18 (i) Sicrhau bod Cynlluniau'r Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid cynnwys dadansoddiad cadarn o'r adnoddau sy'n ofynnol o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael, ynghyd â chynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. [Y Safon – 3.1] | (Coch) | Bydd Cynlluniau yn y dyfodol yn cynnwys holl ofynion y Safon ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys nifer y sefydliadau cymeradwy wedi'i nodi'n gywir, manylion llawn y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau, cynlluniau gwaith ar gyfer safonau bwyd anifeiliaid wedi'u hychwanegu, a manylu ar y gymhariaeth o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn erbyn y rheiny sydd ar gael. Bydd y Cynlluniau hefyd yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. | Nid yw'r Cynllun Gwasanaeth wedi'i ddatblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth. Mae'r awdurdod wedi dewis datblygu Cynllun Gweithredol mwy cryno nad yw'n bodloni'r safon ofynnol. | Sicrhau y caiff cynllun Cyflenwi Gwasanaeth ei ddatblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth. Mae'n rhaid i hyn nodi'r rhaglen o arolygiadau hylendid a safonau bwyd yn ôl categori risg yn unol ag Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, y nifer amcangyfrifedig o ail-ymweliadau, y nifer tebygol o ymchwiliadau i glefydau heintus a digwyddiadau bwyd, manylion cyllidebu gyda dadansoddiad o'r costau ac amcangyfrifiad o'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer pob agwedd ar gyflenwi gwasanaeth. Mae'n rhaid hefyd cynnwys dadansoddiad o'r adnoddau staff cyffredinol sydd ar gael yn erbyn yr adnoddau staff gofynnol er mwyn cynnal y gwasanaeth yn llawn, a lle mae cynlluniau perthnasol i fynd i'r |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | afael ag unrhyw ddiffygion a nodir. |
| 3.18 (ii) Mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau o ran cyflawni cynllun darparu'r gwasanaeth bwyd mewn cynlluniau gwasanaeth dilynol. [Y Safon – 3.3] | | Bydd adolygiad manwl o wasanaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid 2013/14 yn cael ei gyflawni yn erbyn y targedau a osodwyd yng Nghynllun Gwasanaeth 2013/14. Byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau yng Nghynllun Gwasanaeth 2014/15. | Nid yw'r Cynllun Gweithredol yn mynd i'r afael ag amrywiadau. | Sicrhau bod yr adolygiad o berfformiad y flwyddyn flaenorol sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth yn nodi ac yn esbonio unrhyw amrywiadau, ac yn eu cynnwys yn y meysydd sydd angen gwella arnynt o hyn ymlaen. |
| 4.6 (i) Sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau cofnodedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y mae newidiadau i ddeddfwriaeth neu i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1] | | Bydd yr awdurdod yn adolygu ei Bolisi Gorfodi. Bydd yr awdurdod hefyd yn adolygu'r holl bolisïau a'r gweithdrefnau eraill mewn modd amserol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddilys. | Mae'r awdurdod wedi mabwysiadu proses o adolygu dogfennau gweithdrefnol yn rheolaidd. | Cwblhau'r adolygiad o'r Polisi Gorfodi. |
| 4.6 (ii) Ehangu ei system rheoli dogfennau i gynnwys gweithgarwch gorfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 4.2] | | Ehangu cwmpas y Weithdrefn Rheoli Dogfennau i gynnwys safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. | Dogfennau safonau bwyd wedi'u hychwanegu at y gronfa ddata. | Cwblhawyd. |
| 5.19 (i) Adolygu a diwygio'r cynllun dirprwyo i sicrhau ei fod yn | | Bydd y cynllun dirprwyo a'r cyfansoddiad yn cael eu | Mae'r Cynllun Dirprwyo wedi'i adolygu. | Cwblhawyd. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| cynnwys yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, a bod hynny'n gyfredol. [Y Safon – 5.1] | | hadolygu i gynnwys yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol. | | |
| 5.19 (ii) Sicrhau bod yr holl swyddogion sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol wedi'u hawdurdodi'n briodol, ac adolygu, diwygio a chyflwyno ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion i:<br><br>a) Nodi dynodiad y swyddog awdurdodi<br>(b) Nodi bod swyddogion anawdurdodedig wedi'u gwahardd rhag cyflawni unrhyw weithgarwch y mae angen awdurdodiad ar ei gyfer yn ôl y Codau Ymarfer<br>(c) Sicrhau y caiff cymwyseddau swyddogion eu hasesu a'u cofnodi yn unol â'r weithdrefn awdurdodi<br>[Y Safon – 5.1] | | Bydd yr awdurdod yn adolygu ei Weithdrefn Awdurdodi a gwneud y newidiadau gofynnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Awdurdodiadau wedi'u diweddaru. | Cwblhawyd. |
| 5.19 (iii) Adolygu a diweddaru'r matrics 'Asesiad o Gymhwysedd' i gynnwys yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a chosbau rheoleiddio. [Y Safon – 5.1] | | Bydd yr Asesiad o'r Matrics Cymwyseddau'n cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, | Y matrics ar gyfer asesu cymhwysedd swyddogion wedi'i ddiwygio. | Cwblhawyd. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | cosbau/camau gweithredu, ac yn cynnwys gorfodi bwyd anifeiliaid. | | |
| 5.19 (iv) Adolygu awdurdodiadau swyddogion i sicrhau eu bod yn gyson â'u cymwysterau, hyfforddiant, profiad a'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.3] | | Bydd yr holl awdurdodiadau'n cael eu hadolygu, ac yn parhau i gael eu hadolygu'n ffurfiol ym mhob gwerthusiad perfformiad blynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn ddilys/cywir a phan fo newidiadau i ddeddfwriaeth. | Awdurdodiadau wedi'u diweddaru. | Cwblhawyd. |
| 5.19 (v) Sicrhau bod pob swyddog awdurdodedig yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen er mwyn bod yn gymwys i gyflawni'r agweddau technegol ar y gwaith y bydd yn cymryd rhan ynddo, yn unol â'r Codau Ymarfer. [Y Safon – 5.4] | | Bydd yr awdurdod yn adolygu'r gofynion hyfforddi ar gyfer swyddogion sy'n gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a sicrhau y caiff holl ofynion y Cod Ymarfer eu bodloni. | Mae'r hyfforddiant sydd wedi'i gynnal hyd yn hyn yn cynnwys alergenau, hysbysiadau gwella, a safonau bwyd ar gyfer swyddogion diogelwch bwyd. | Cwblhawyd. |
| 5.19 (vi) Rhoi gwybod i'r Asiantaeth Safonau Bwyd am staff a awdurdodwyd dan Ddeddf Bwyd | | | Hysbyswyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd am yr holl swyddogion sydd wedi'u cyflogi | Cwblhawyd. |

| **Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau Arfaethedig** | **Cynnydd Hyd Yma** | **Heb ei Gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| a Diogelu'r Amgylchedd 1985 ond nad ydynt wedi'u cyflogi gan yr awdurdod bellach. [Y Safon – 18.1] | | | gan yr awdurdod ar hyn o bryd sydd angen awdurdodiad dan Ddeddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd. | |
| 5.19 (vii) Penodi digon o swyddogion awdurdodedig i gyflawni'r gwaith a nodwyd yn y cynllun cyflenwi gwasanaeth. (Y Safon – 5.3) | *Heb allu asesu cynnydd* | Bydd yr awdurdod yn parhau i flaenoriaethu mesurau gorfodi cyfraith bwyd o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo. Bydd adolygiad o'r adnoddau gofynnol yn cael ei gynnal.<br>Gweithio gydag awdurdodau Gogledd Cymru i orfodi bwyd anifeiliaid ar y cyd – datblygu cynllun gwasanaeth ar y cyd, gan gynnwys amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd eu hangen. Bydd camau gweithredu a gymerir gan yr awdurdod yn seiliedig ar risg a bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i weithredu ar yr ôl-groniad o ymyriadau a safleoedd risg uchel. | Ar ôl ail-strwythuro'r gwasanaeth, mae Rheolwr Busnes wedi'i benodi gyda'r prif gyfrifoldeb rheoli dros orfodi diogelwch bwyd. Hyfforddiant dosbarth ar gyfer Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ar safonau bwyd wedi'i gwblhau – rhaglen yn cael ei datblygu er mwyn gallu asesu cymhwysedd.<br>Mae'r broses o drosglwyddo i gynllun sgorio risg y Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol wedi dechrau ac mae hi'n parhau er mwyn gallu proffilio busnesau yn gywir.<br><br>Bydd adolygiad o adnoddau yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth. | Nifer digonol o swyddogion i gael eu penodi yn unol â'r dadansoddiad o adnoddau o fewn y Cynllun Gwasanaeth. |
| 6.15 (i) Sicrhau bod offer yn cael ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi (*calibrate*) yn briodol. I gefnogi'r dasg hon, dylid cynnal a | | Nodi swyddog i fod yn gyfrifol am sicrhau y caiff gweithdrefnau cynnal a chadw a graddnodi eu | Mae Swyddog Cefnogi Technegol wedi'i benodi i fod yn gyfrifol am sicrhau bod offer yn cael ei gynnal a'i gadw a'i | Cwblhawyd |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| gweithredu'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer cynnal a chadw a graddnodi, gan gynnwys cofnodion graddnodi a gwiriadau eraill. [Y Safon – 6.2] | | gweithredu ac y caiff cofnodion priodol eu cynnal. Gwella prosesau monitro mewnol er mwyn cynnwys ystyriaeth o offer. | raddnodi, a bod hynny yn cael ei gofnodi yn unol â'r weithdrefn ddiwygiedig.<br>Cit samplu safonau bwyd wedi'i brynu. Thermomedrau wedi'u rhoi i swyddogion yn unol â'r weithdrefn a gwiriadau graddnodi wrth eu defnyddio ar waith. Oergelloedd wedi'u gwirio. | |
| 6.15 (ii) Gweithredu'r gronfa ddata safleoedd a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod modd darparu gwybodaeth ddibynadwy am safonau bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. [Y Safon – 6.3] | | 6.15 (ii) Gweithredu'r gronfa ddata safleoedd a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod modd darparu gwybodaeth ddibynadwy am safonau bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. | Myfyriwr dros yr haf i ddechrau ar y gwaith, ond yn aros am adborth Unffurf ar allu i ysgrifennu sgript i gwblhau'n electronig.<br>Adroddiad yn barod ar gyfer tasg â llaw.<br>Cronfa ddata wedi'i newid er mwyn galluogi'r broses o lanlwytho data. | Gallu lanlwytho data monitro gorfodi blynyddol dibynadwy i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. |
| 7.24 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – | | Adolygu'r ffordd y caiff ymyriadau hylendid bwyd eu cynnal i sicrhau bod arolygiadau, gan gynnwys y rheiny mewn sefydliadau | Sefydliadau risg uwch, rhai heb eu sgorio a sefydliadau cymeradwy bellach yn destun amlder ymyrryd lleiaf.<br>Cynnydd sylweddol o ran | Sicrhau y caiff safleoedd eu harolygu ar yr amlderau lleiaf. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.1] | | cymeradwy, yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol. Gwella prosesau monitro mewnol i fonitro amlder ymyriadau a chymryd camau yn unol â hynny. | cyflawni amlderau arolygu lleiaf ar gyfer sefydliadau risg is. | |
| 7.24 (ii) Amlygu pob sefydliad sydd wedi cael sgôr risg heb arolygiad llawn, arolygiad rhannol nac archwiliad a'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad; cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid, a chymeradwyo sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | | Bydd sefydliadau bwyd sydd wedi cael sgôr risg o'r swyddfa yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiad.<br>Atgoffa swyddogion o'r gofyniad i gadw cofnod o'r rhesymau dros roi sgôr risg is a thrafod â'r rheolwr perthnasol.<br>Atgoffa swyddogion o'r gofyniad i ail-ymweld â sefydliadau bwyd yn unol â'r Polisi Ail-ymweld a chofnodi'r darganfyddiadau.<br>Ffeiliau sefydliadau cymeradwy i gael eu hadolygu i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn Atodiad 10 y | Adroddiad yn bodoli o safleoedd sydd wedi'u sgorio o'r swyddfa – cronfa ddata i gael ei diweddaru. Pob sefydliad o'r fath wedi derbyn statws 'heb gael ymweliad'. Cysylltiadau eisoes wedi'u datblygu â Thimau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach er mwyn caniatáu diweddariadau misol ar fusnesau sydd wedi agor/cau. Swyddogion yn cynnal archwiliadau cymheiriaid o nifer sampl o adroddiadau/ffurflenni/llythyrau arolygu a rhoi adborth i'r swyddogion, a hefyd y tîm. Caiff hyn ei gynnal yn | Sicrhau bod sgoriau risg yn gyson â chanfyddiadau, cofnodi unrhyw benderfyniadau i leihau sgoriau ac ailymweliadau i'w cynnal mewn modd amserol lle bo'n briodol.<br>Sicrhau bod pob busnes sy'n destun Strategaeth Orfodi Amgen yn gymwys. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd wedi'i chynnwys.<br>Darparu hyfforddiant i swyddogion er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei chofnodi ar ffurflenni arolygiadau i ddangos bod swyddogion wedi ystyried systemau rheoli diogelwch bwyd seiliedig ar HACCP, asesiad digonol o fesurau rheoli croeshalogi a hyfforddiant sydd wedi'i ddarparu i staff, gan dynnu sylw at faterion sydd angen sylw neu gamau dilynol, a'r defnydd cywir o sgoriau risg.<br>Holiaduron 'Strategaeth Orfodi Amgen' a gaiff eu dychwelyd i gael eu hadolygu gan swyddog awdurdodedig er mwyn nodi'r rheiny lle mae angen camau dilynol. | rheolaidd.<br>Sgorio risg yn gyson gan fwyaf ac ailymweliadau yn cael eu cynnal yn unol â gofynion gan fwyaf.<br>Strategaethau Gorfodi Amgen yn cael eu cynnal yn unol â gofynion. | |
| 7.24 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol; cymryd camau priodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a nodir, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y | | Bydd yr awdurdod yn sicrhau bod unrhyw drefniadau arfaethedig ar gyfer ymyriadau hylendid bwyd yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br>Bydd yr awdurdod yn nodi'r | Asesiadau priodol ar gyfer gofynion hyfforddi.  Asesiadau yn fwyaf addas ar gyfer HACCP a gofynion croeshalogi ac weithiau ar gyfer marciau adnabod a bwyd wedi'i fewnforio. | Gwella cysondeb asesiadau bwyd wedi'i fewnforio a marciau adnabod, HACCP a chroeshalogi. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Safon – 7.3] | | sefydliadau hynny sydd wedi'u sgorio o ran risg heb gael arolygiad a'u hail-ddynodi fel rhai 'heb eu sgorio'. | | |
| 7.24 (iv) Gweithredu gweithdrefnau cofnodedig yn llawn ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4] | | Bydd adolygiad yn cael ei gynnal i sicrhau bod gweithdrefnau gwaith yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'u bod yn cael eu gweithredu'n llawn ar gyfer yr ystod o ymyriadau hylendid bwyd gan gynnwys strategaethau gorfodi amgen. | Adolygu a gweithredu'r weithdrefn Strategaeth Orfodi Amgen. | Cwblhawyd. |
| 7.24 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wneir yn ystod ymyriad/arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei cholli. [Y Safon – 7.5] | | Bydd pob swyddog yn cael ei atgoffa o'r angen i gofnodi arsylwadau mewn modd amserol. Hyfforddiant i'w ddarparu i swyddogion ar lefel y manylion sydd ei hangen i ddangos bod asesiad digonol o gydymffurfiaeth wedi'i gynnal. Bydd gwell dulliau monitro yn cael eu cynnal. | Mae swyddogion bellach yn cynnal archwiliadau cymheiriaid o nifer sampl o adroddiadau/ffurflenni/llythyrau arolygu ac yn rhoi adborth i'r swyddogion, a'r tîm hefyd. Caiff hyn ei gynnal yn rheolaidd.<br>Cofnodion priodol o arsylwadau ar gyfer gofynion hyfforddi. Asesiadau yn fwyaf addas ar gyfer HACCP a gofynion croeshalogi ac weithiau ar gyfer marciau adnabod a bwyd wedi'i | Gwella cysondeb cofnodion arolygu bwyd wedi'i fewnforio a marciau adnabod, HACCP a chroeshalogi. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | fewnforio. | |
| 7.40 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau safonau bwyd eu cynnal ar amlder nad yw'n llai na'r amlder a bennir o dan y cynllun sgorio ymyrraeth a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | | Bydd yr awdurdod yn adolygu'r gofynion o ran adnoddau ar gyfer cynnal ymyriadau safonau bwyd yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r sgiliau a'r cymwyseddau sy'n bodoli eisoes neu a allai gael eu datblygu yn yr awdurdod. Bydd yr awdurdod yn blaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael iddo yn unol â risg. Bydd yr awdurdod hefyd yn mynd ati i wella prosesau monitro mewnol er mwyn sicrhau y caiff ymyriadau eu cynnal yn ôl yr angen. | Rydym wedi dechrau datblygu gallu swyddogion diogelwch bwyd i gynnal ymyriadau safonau bwyd.<br>Hyfforddiant dosbarth i swyddogion wedi'i gwblhau a gwaith yn dechrau ar raglen ar gyfer asesu gallu.<br>Arolygiadau safonau bwyd risg 'canolig' ac 'isel' bellach yn cael eu cynnal yr un pryd ag arolygiadau hylendid bwyd. | Sicrhau y caiff safleoedd eu harolygu ar yr amlderau lleiaf. |
| 7.40 (ii) Amlygu pob sefydliad sydd wedi cael sgôr risg heb arolygiad llawn, arolygiad rhannol neu archwiliad a'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad; cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | | Bydd yr holl safleoedd hyn yn cael eu hadolygu a'u diwygio yn y gronfa ddata o safleoedd. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y rhaglen er mwyn cael ymyriad priodol. Bydd cynllun sgorio risg amgen yn cael ei weithredu ar gyfer safonau bwyd sy'n gyfystyr â chynllun Atodiad 5. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal o'r *aide-memoire* ar gyfer safonau bwyd er mwyn | Wedi dechrau ar y broses o symud at gynllun sgorio risg y Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol – disgwyl am adroddiad rhaglennydd y gronfa ddata ar hyn o bryd.<br>Cynllun sgorio risg newydd ar waith yn unol ag Atodiad 5 o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a sgoriau ond yn cael eu dyfarnu ar ôl arolygiad. | Sicrhau bod pob arolygiad yn ddirybudd neu lle caiff penderfyniad ei wneud i roi rhybudd, bod y rheswm dros y penderfyniad hwnnw yn cael ei gofnodi ar ffeil y sefydliad. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | sicrhau y caiff gwybodaeth ddigonol ei chasglu i lywio dull graddedig o orfodi. | | |
| 7.40 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | | Adolygu a diwygio taflenni ymweliad ac *aide-memoire* er mwyn sicrhau y bodlonir pob agwedd ar y gofynion. Monitro'r broses o gwblhau ffurflenni drwy gynllun monitro ansawdd mewnol (i'w ddatblygu). | Wedi adolygu taflen ymweliad Diogelwch Bwyd ochr yn ochr â gwaith ar gymhwysedd swyddogion Iechyd yr Amgylchedd. Heb ei brofi yn y maes hyd yma. Asesiadau o gydymffurfiaeth, olrhain a gweithdrefnau tynnu a galw bwyd yn ôl weithiau'n gyson. | Gwella cysondeb asesiadau o gydymffurfiaeth, olrhain a gweithdrefnau tynnu a galw bwyd yn ôl. |
| 7.40 (iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4] | | Bydd adolygiad o safonau bwyd a gweithdrefnau bwyd anifeiliaid yn cael ei gynnal a bydd gweithdrefnau gofynnol yn cael eu datblygu a'u cadw ar system rheoli dogfennau. Bydd hyn yn cynnwys datblygu polisïau a gweithdrefnau yn rhanbarthol/cenedlaethol. | Proses o ddatblygu gweithdrefnau ymyrryd safonau bwyd yn mynd rhagddi. Gweithdrefnau ymyrryd safonau bwyd wedi'u datblygu ar y cyd â gweithdrefnau hylendid bwyd. | Cwblhawyd. |
| 7.40 (v) Sicrhau bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau yn | | Bydd yr awdurdod yn datblygu system i storio | Rhai cofnodion arolygu o fanylion cyflenwyr a | Gwella cofnodion arolygu o fanylion cyflenwyr a |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| cael eu storio mewn ffordd sy’n golygu bod modd eu hadalw. [Y Safon – 7.5] | | cofnodion o'r fath ac yn hyfforddi swyddogion ar y system newydd. Bydd system fonitro hefyd yn cael ei datblygu. | chwsmeriaid, cydymffurfiaeth, y gallu i olrhain a gweithdrefnau tynnu a galw bwyd yn ôl yn briodol. | chwsmeriaid, cydymffurfiaeth, y gallu i olrhain a gweithdrefnau tynnu a galw bwyd yn ôl. |
| 8.14 (i) Adolygu a diweddaru’r Weithdrefn Gwyno er mwyn rhoi arweiniad i swyddogion ar gasglu gwybodaeth allweddol. [Y Safon – 8.1] | | Bydd y weithdrefn gwyno yn cael ei hadolygu i hwyluso'r broses o gofnodi dyddiad ac amser y gwyn a bydd yr amser ymateb targed (3 diwrnod neu 3 diwrnod gwaith) yn cael ei egluro. Bydd pob swyddog yn cael ei hyfforddi ar ofynion y weithdrefn newydd, gan gynnwys sut y mae’n rhaid storio gwybodaeth. | Gweithdrefn wedi'i diweddaru. Gwybodaeth a gesglir bellach yn cael ei digideiddio yn y gronfa ddata. | Cwblhawyd. |
| 8.14 (ii) Ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn unol â’r Codau Ymarfer, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a’i bolisi a’i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2] | | Gwella prosesau monitro mewnol i sicrhau yr ymchwilir i gwynion yn ddigonol, y caiff gweithredoedd eu cofnodi’n ddigonol a bod cwsmeriaid yn ymwybodol o’r canlyniadau. | Fe ymchwilir i gwynion yn unol â'r holl ofynion. | Cwblhawyd. |
| 11.5 (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig i sicrhau bod ei gronfeydd data safonau bwyd a safleoedd bwyd | | Bydd yr awdurdod yn cynnwys cywirdeb cronfa ddata safonau bwyd a sefydliadau bwyd anifeiliaid o | Gweithdrefn hylendid bwyd wedi'i datblygu i gynnwys safonau bwyd. | Cwblhawyd. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| anifeiliaid yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2] | | fewn y weithdrefn diogelwch bwyd bresennol ac yn gweithredu'n unol â hynny. Bydd gwaith monitro hefyd yn cael ei gynnal i wirio cywirdeb y data. | | |
| 12.15 (ii) Adolygu a diweddaru'r gweithdrefnau samplu cofnodedig yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | | Bydd yr awdurdod yn diwygio ei weithdrefn samplu bwyd i gynnwys cyfeiriad at y Prif Awdurdod/Awdurdod Cartref, trefniadau tu allan i oriau swyddfa, a methodoleg samplu, gan gynnwys gwybodaeth am gaffael samplau. | Adolygiad o weithdrefnau wedi'i gwblhau i gynnwys ystyriaethau Awdurdod Cartref a Phrif Awdurdod a threfniadau tu allan i oriau swyddfa. | Cwblhawyd |
| 12.15 (iii) Cymryd camau priodol pan ystyrir bod canlyniadau samplu yn anfoddhaol. [Y Safon – 12.7] | | Bydd yr awdurdod yn gwella prosesau monitro mewnol i sicrhau camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â chanlyniadau samplu anfoddhaol. | Camau gweithredu priodol wedi'u cymryd mewn ymateb i rai canlyniadau anfoddhaol. | Sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd ac awdurdodau lleol eraill yn cael eu hysbysu'n gyson am ganlyniadau anfoddhaol lle bo'n briodol ac y caiff camau priodol eu cymryd i fynd i'r afael â marchnata bwyd anfoddhaol. |
| 13.8 (i) Sicrhau bod y cynllun ar gyfer rheoli achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei gynnal a'i weithredu'n llawn. [Y Safon – 13.1] | | Adolygu a diweddaru'r Cynllun Rheoli Achosion er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn gyfredol, gan dalu sylw penodol i ddeddfwriaeth. | Cynllun Rheoli Achosion wedi'i ddiweddaru. | Cwblhawyd. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 13.8 (ii) Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion a gadarnhawyd neu a amheuir o glefydau heintus sy’n gysylltiedig â bwyd yn cael ei gweithredu.<br>[Y Safon – 13.2] | | Bydd cyfeiriad at yr ymchwiliad i sefydliadau bwyd cysylltiedig yn cael ei gynnwys yn y broses ar gyfer ymchwilio i achosion a gadarnhawyd neu a amheuir o glefydau hysbysadwy.<br>Bydd prosesau mewnol i fonitro camau gweithredu swyddogion mewn ymateb i hysbysiadau ID yn cael eu gwella er mwyn sicrhau y caiff gweithdrefnau eu dilyn a bod cofnodion digonol yn cael eu cadw. | Gweithdrefn wedi'i diwygio i gynnwys ymchwiliad i fusnesau bwyd cysylltiedig.<br>Gan amlaf, ymchwiliadau wedi'u cwblhau yn unol â gweithdrefnau. | Sicrhau yr ymchwilir i bob hysbysiad o glefydau heintus a bennir i beri risg isel, gan gynnwys llenwi holiaduron yn llawn, yn unol â gweithdrefn yr awdurdod a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. |
| 13.8 (iii) Sicrhau bod yr holl gofnodion sy’n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i achosion o glefydau heintus sy’n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 13.3] | | Bydd prosesau mewnol i fonitro camau gweithredu mewn ymateb i hysbysiadau ac achosion ID yn cael eu gwella er mwyn sicrhau y caiff cofnodion digonol eu cadw. | Pob cofnod ar gael. | Cwblhawyd. |
| 15.16 (i) Sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi yn cael ei gynnal a’i weithredu’n llawn yn unol â’r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill. [Y Safon – 15.1] | | Cynnal adolygiad o'r Polisi Gorfodi ar y cyd â phob P a PP er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaeth ac i gynnwys cyfeiriad at y Prif Awdurdod. | Polisi gorfodi ar draws y gwasanaeth wrthi'n cael ei ddatblygu. | Gorffen datblygu'r polisi gorfodi, gan sicrhau ei fod yn cynnwys ystyriaethau'r Cynllun Prif Awdurdod. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 15.16 (ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer gwaith dilynol a chamau gorfodi mewn perthynas ag erlyniadau, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 15.2] | | Bydd unrhyw weithdrefn sydd ddim yn ei lle yn ystod yr archwiliad yn cael ei chynhyrchu a'i chyfathrebu i'r holl swyddogion. Datblygu a chynnal proses erlyn gofnodedig a sicrhau y caiff ei rhoi ar waith yn effeithiol. Datblygu gweithdrefnau ar gyfer safonau bwyd a gorfodi bwyd anifeiliaid ar y cyd â phob P a PP i sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaeth. | Gweithdrefn erlyn wedi'i datblygu a gweithdrefnau hylendid bwyd wedi'u diwygio i gynnwys safonau bwyd. Gweithdrefn ar gyfer defnyddio hysbysiadau gwella ar gyfer materion safonau bwyd wedi'i hychwanegu at y weithdrefn. | Cwblhawyd. |
| 15.16 (iii) Sicrhau bod gwaith gorfodi cyfraith hylendid bwyd yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. Dylid cofnodi'r | | Bydd gweithdrefn fonitro fewnol yr awdurdod yn cael ei hadolygu a'i datblygu er mwyn sicrhau y caiff camau gweithredu eu cymryd yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol. | Yr holl Hysbysiadau Gwella Hylendid a chytundebau cau yn wirfoddol ar gael a'r awdurdod wedi mynd i'r afael â phob mater yn ymwneud â chau yn wirfoddol. Roedd yr holl Hysbysiadau Gwella | Sicrhau y caiff prawf i ddangos bod Hysbysiadau Gwella Hylendid wedi'u cyflwyno ei gadw, bod unrhyw estyniad yn cael ei weinyddu'n gywir, a bod cydymffurfiaeth yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig. |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| rhesymau dros unrhyw wyro. [Y Safonau – 15.3 ac 15.4] | | | Hylendid wedi'u geirio'n gyson, wedi'u cyflwyno i'r unigolyn cywir ac ailymweliadau wedi'u cynnal mewn modd amserol. Aethpwyd ag erlyniadau yn eu blaen mewn modd amserol a chafodd y swyddog datgelu ei nodi'n glir.<br><br>*Roedd amryw agweddau ar yr argymhelliad hwn nad oedd modd eu hasesu o ganlyniad i natur y gweithgarwch gorfodi a oedd wedi'i gynnal.* | Mewn perthynas ag unrhyw orchymyn gwahardd, sicrhau bod manylion y Llys yn cael eu darparu i'r busnes, bod cofnod o'r Gorchymyn Llys yn cael ei ganiatáu a'r cais i godi'r Hysbysiad neu'r Gorchymyn. Sicrhau bod y broses o gau'r busnes yn cael ei fonitro'n briodol.<br>Lle caiff bwyd ei atafael (*seize*) neu ei ildio'n wirfoddol, mae cofnod o'r cyflwyniad i Lys ac o'r broses o ddinistrio / cael gwared ar y bwyd (gan gynnwys yr amser a'r lle). Sicrhau bod bwyd a gaiff ei ildio yn wirfoddol yn cael ei nodi felly yn y gronfa ddata.<br>Sicrhau mai dim ond mewn amgylchiadau priodol y caiff rhybuddion syml eu rhoi a hynny yn unol â'r Polisi Gorfodi, a bod y penderfyniad yn cael ei wneud yn gywir ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, yn unol â chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br><br>Sicrhau bod copi o'r gymeradwyaeth erlyn gan y |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | swyddog erlyn ar gael. |
| 16.6 (i) Cynnal cofnodion cyfredol sy’n cynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch gofynion cyfreithiol a wnaed gan swyddogion awdurdodedig, manylion camau a gymerwyd pan amlygwyd diffyg cydymffurfio, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd, canlyniadau unrhyw samplu, manylion unrhyw gwynion a chamau a gymerwyd, a hefyd gwybodaeth gofrestru a chymeradwyo berthnasol am fwyd a/neu fwyd anifeiliaid. Yn ogystal, dylid cofnodi unrhyw wyriadau o weithdrefnau penodol ynghyd â’r rhesymau drostynt. [Y Safon – 16.1] | | Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer swyddogion am bwysigrwydd cadw cofnodion manwl a bydd archwiliadau o gofnodion/ffeiliau swyddogion yn parhau. | Roedd hanes ffeil ar gael yn gyson ar gyfer safleoedd a archwiliwyd tra'r oedd cofnod o Bwyntiau Rheoli Critigol weithiau ar gael. Gan fwyaf, roedd amserlenni yn cael eu nodi mewn adroddiadau. | Sicrhau bod cofnod o Bwyntiau Rheoli Critigol ar gael yn y ffeil ar gyfer pob sefydliad yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Hefyd, sicrhau y caiff amserlenni ar gyfer cydymffurfio eu cynnwys yn gyson ar gyfer pob achos o ddiffyg cydymffurfio mewn adroddiadau arolygu. |

| **Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau Arfaethedig** | **Cynnydd Hyd Yma** | **Heb ei Gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| 16.12 (i) Cynnal cofnodion cyfredol ar ffurf y gellir ei hadalw ar yr holl sefydliadau bwyd yn ei ardal yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Rhaid i’r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd pan amlygwyd achosion o ddiffyg cydymffurfio, a gwybodaeth berthnasol am gofrestru sefydliad bwyd. [Y Safon – 16.1] | | Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer swyddogion am bwysigrwydd cadw cofnodion manwl a bydd archwiliadau o gofnodion/ffeiliau swyddogion yn parhau. | Mae adroddiadau arolygu ar gael weithiau a lle maent ar gael, maent fel arfer yn cynnwys manylion cyswllt uwch swyddog, amserlenni ar gyfer cydymffurfio ac yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion. | Sicrhau bod adroddiadau arolygu ar gael yn gyson ac yn cynnwys manylion cyswllt uwch swyddog, amserlenni ar gyfer cydymffurfio ac yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion. |
| 16.12 (ii) Sicrhau y cedwir cofnodion am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2] | | Bydd pob cofnod yn cael ei gadw am 6 blynedd a bydd gweithdrefnau’n cael eu diwygio i adlewyrchu hyn. | Cofnodion ar gael weithiau. | Sicrhau bod cofnodion sefydliadau ar gael. |
| 19.13 (i) Datblygu ymhellach a gweithredu’n llawn y weithdrefn fonitro fewnol ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phob agwedd ar y Cytundeb Fframwaith. | | Rhoi proses fonitro mewnol ar waith ar gyfer pob mesur rheoli swyddogol sy’n ymwneud â bwyd anifeiliaid. Adolygu prosesau monitro mewnol ar gyfer hylendid a | Gweithdrefn fonitro fewnol wedi'i datblygu i gynnwys nodi staff sy'n gyfrifol am fonitro mewnol ac i gynnwys rhai agweddau ar gynnal gwasanaeth. | Datblygu'r weithdrefn ymhellach i gynnwys Strategaeth Orfodi Amgen, ymatebion i rybuddion bwyd a digwyddiadau a chroesgyfeirio at agweddau monitro'r weithdrefn rheoli |

| Gweithredu ar (argymhelliad, gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau Arfaethedig | Cynnydd Hyd Yma | Heb ei Gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| [Y Safon – 19.1] | | safonau bwyd er mwyn sicrhau y caiff pob agwedd o'r Safon ei chynnwys. | | cronfa ddata. |
| 19.13 (ii) Cadarnhau ei gydymffurfiaeth â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 19.2] | | | Prosesau monitro mewnol ar gyfer arolygiadau bwyd ac ymchwiliadau clefydau heintus. | Cynnwys prosesau monitro mewnol o ffeiliau sampl anfoddhaol, cwynion a cheisiadau am wasanaeth, Strategaethau Gorfodi Amgen, ymatebion i rybuddion a digwyddiadau, camau gorfodi. |

<u>Crynodeb.</u>

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **39** |
| **Cwblhawyd** | **17** |
| **Cynnydd Da** | **13** |
| **Ychydig o Gynnydd** | **6** |
| **Dim camau wedi'u cymryd** | **2** |
| **Heb eu profi** | **1** |
| **Cyfanswm yn weddill** | **22** |